(4) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd â chymal terfynu'r landlord."

*Cyfyngiadau ar lys yn gwrando hawliad meddiant gan landlord*

6 Yn adran 204 (cyfyngiadau ar lys yn gwrando hawliadau meddiant gan landlord)—

(a) yn is-adran (1)(a)(vii), ar ôl "177" mewnosoder ", 177A";

(b) yn is-adran (1)(a)(ix), yn lle "adran 186 (cyfyngiad", rhodder ", adrannau 186, 186A, 186B a 186C (cyfyngiadau";

(c) yn is-adran (1)(a)(xiii), ar ôl "198" mewnosoder ", 198A".

*Darpariaeth ganlyniadol amrywiol*

7 Yn Atodlen 1 (trosolwg o ddarpariaethau sylfaenol a ymgorfforir fel telerau contractau meddiannaeth)—

(a) yn Rhan 2 (contractau safonol cyfnodol), yn nhabl 4, yn nodiadau'r cofnod ar gyfer adrannau 173 i 180 (terfynu drwy hysbysiad a roddir gan landlord)—

(i) yn lle "a 176" rhodder ", 176, 177 a 177A";

(ii) yn lle "adran 176" rhodder "adran 177";

(b) yn Rhan 3 (contractau safonol cyfnod penodol), yn nhabl 5—

(i) yng ngholofn gyntaf y cofnod ar gyfer adran 186, yn lle "Adran 186", rhodder "Adrannau 186, 186A, 186B a 186C";

(ii) yn nodiadau'r cofnod ar gyfer adran 186, ar y diwedd, mewnosoder "Os nad yw adran 186(1) wedi ei hymgorffori, nid yw adrannau 186A, 186B a 186C yn gymwys. Os yw contract yn ymgorffori adran 186(1), rhaid ymgorffori adrannau 186A, 186B a 186C, a rhaid ymgorffori adran 186B heb ei haddasu.";

(iii) yn nodiadau'r cofnod ar gyfer adrannau 195 i 201 (terfynu drwy hysbysiad a roddir gan landlord o dan gymal terfynu'r landlord), yn lle "adran 196 (torri'r rheolau blaendal)" rhodder "adran 198 (torri gofynion sicrwydd a blaendal)".

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.